Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Meithrinfa Pontsenni
**Ysgol Gynradd Gymunedol Pontsenni**
**Defynnog Road**
**Pontsenni**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 8RS**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Meithrinfa Pontsenni

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Pontsenni |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ddim yn Gymwys |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Graeme Robson/ Sara Davies |
| Person â chyfrifoldeb | Diane Richards |
| Nifer y lleoedd | Cofrestrwyd ar gyfer uchafswm o 19 o blant |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 3 a 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 0 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 19 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Mae'r sesiynau'n rhedeg rhwng 9.15am ac 11.15am (sesiwn Saesneg) a rhwng 13.15pm a 15.15pm (Sesiwn Gymraeg). |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 09/04/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad Estyn cyntaf yn dilyn y cofrestru |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/09/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Nifer fach o'r plant sy'n siarad Cymraeg gartref. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn mynychu'r sesiynau Cymraeg a Saesneg yn y lleoliad. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

***Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.***

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y ddarpariaeth yn y sesiynau Cymraeg yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r plant i ddatblygu eu sgiliau iaith.

A2 Datblygu tîm cadarn a sefydlog sydd â rolau a chyfrifoldebau clir i gyflwyno darpariaeth effeithiol i'r holl blant

A3 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanwerthuso yn gwerthuso gwaith y lleoliad cyfan

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn ac AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau effeithiol. Mae’r plant yn hyderus bod yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn parchu eu dewisiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu'n gadarnhaol yn eu dewis o weithgareddau ac yn dangos lefel addas o gymhelliant a dyfalbarhad pan fyddant yn gweithio'n annibynnol a gyda chyfoedion yn ystod amser chwarae rhydd. Mae digon o ddewisiadau ar gael i'r plant. Er enghraifft, roedd bron pob un o'r plant yn dewis lle maent yn chwarae yn ystod chwarae rhydd, p'un a ydynt am laeth neu ddŵr i'w yfed a ph'un a ydynt am ragor o fwyd yn ystod amser byrbryd.

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd yn hapus ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni a'u gofalwyr. Er enghraifft, maent yn gwenu ac yn chwerthin wrth iddynt godi llaw i ffarwelio. Mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn mynd yn syth at weithgareddau chwarae rhydd o'u dewis. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r ymarferwyr ac yn mynd atynt yn hyderus i gael maldod. Maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn ac yn gyfarwydd iawn â'r drefn.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn datblygu cyfeillgarwch. Maent yn cydweithredu ac yn dechrau bod yn ystyriol o'i gilydd, fel dweud os gwelwch yn dda a diolch yn ystod amser byrbryd. Maent yn dechrau cymryd eu tro a rhannu gyda'u ffrindiau. Er enghraifft, aros yn amyneddgar i ddefnyddio'r teganau reidio. Tra bod dau blentyn yn coginio yn y gegin fwd yn y coetir, ymuna plentyn arall a gofyn 'do you need flour' a rhoi dail y mae wedi'u casglu yn y gymysgedd.

Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at eraill. Mae pob un o'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau gan yr ymarferwyr yn hyderus, fel tacluso, golchi dwylo ac eistedd wrth y bwrdd.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn ymgysylltu'n dda ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a gynigir. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser mewn gweithgareddau â ffocws. Maent yn symud o amgylch yr ardal dan do a'r ardal awyr agored yn rhydd, ac yn llawn cyffro am eu gweithgareddau chwarae rhydd. Er enghraifft, maent yn mynd ar helfa chwilod gyda chwyddwydrau yn y coedir ac maent yn llawn brwdfrydedd wrth ddod o hyd i we pry cop, sy'n wlyb o ganlyniad i'r glaw. Mae'r plant yn hyderus i gychwyn ar eu chwarae eu hunain ac ymgolli yn eu gweithgareddau. Er enghraifft, mae dau blentyn yn ystod chwarae awyr agored yn y gegin fwd yn y coetir wrth eu bodd yn gwneud 'cacen siocled'.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu ac yn dysgu'n dda. Yn ystod sesiwn amser carped, mae'r plant yn dangos eu bod yn adnabod lliwiau ac yn gallu cyfrif i ddeg yn llwyddiannus. Mae nifer yn dod yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo heb lawer o gymorth. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth yn ystod adeg byrbryd wrth iddynt ddewis eu ffrwythau a'u fflapjacs eu hunain, defnyddio gefeiliau bach yn llwyddiannus a cheisio arllwys eu diodydd eu hunain. Mae'r plant yn ceisio gwisgo dillad glaw, cotiau ac esgidiau glaw yn annibynnol ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

**Dysgu (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn y lleoliad yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae ganddynt sgiliau gwrando cadarn ac maent yn dangos diddordeb cynyddol a dealltwriaeth o gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd. Yn fuan ar ôl dechrau, mae'r rhan fwyaf yn ymuno ag amrywiaeth eang o ganeuon a symudiadau yn ystod eu harferion beunyddiol. Maent yn ymddiddori wrth wrando ar straeon ac maent yn awyddus i ateb cwestiynau a rhannu eu syniadau gyda'r ymarferwyr. Er bod y rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r sesiynau Cymraeg yn gwrando'n briodol ar gyfarwyddiadau ac yn ymuno wrth ganu caneuon a hwiangerddi cyfarwydd, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu sgiliau iaith lleferydd Cymraeg. Maent yn dechrau ateb cwestiynau syml gyda chefnogaeth ond mae eu hymatebion yn gyfyngedig iawn ac mae'r rhan fwyaf yn newid i siarad Saesneg yn hawdd. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i rannu eu syniadau a'u barn yn ystod y sesiynau hyn, sy'n cael effaith negyddol ar eu dysgu.

Mae nifer o'r plant yn dod o hyd i'w henwau eu hunain yn ysgrifenedig yn llwyddiannus pan fyddant yn cofrestru eu hunain ar ddechrau'r sesiwn, a phan fyddant yn chwilio am eu matiau bwrdd yn ystod amser byrbryd. Maent yn dechrau dangos dealltwriaeth addas o ddiben ysgrifennu ac yn creu marciau mewn sefyllfaoedd amrywiol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu sgiliau ysgrifennu cynnar i gopïo patrymau a thynnu lluniau o'u hwynebau. Mae nifer o'r plant yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn dda drwy ddefnyddio rhifau yn ymarferol, er enghraifft wrth gyfrif nifer y plant sy'n bresennol a nifer y bysedd sydd ganddynt ar eu dwylo wrth wneud olion dwylo. Mae'r plant hŷn yn cyfrif rhifau hyd at 20 ac yn dysgu faint sydd ei angen eto i greu'r cyfanswm hwn. Mae nifer yn dechrau datblygu dealltwriaeth addas o fesur ac yn defnyddio'u sgiliau datrys problem yn briodol, er enghraifft wrth amcangyfrif sawl can a chynhwysydd dŵr sydd eu hangen i gario dŵr i'r wal dŵr ac yn ôl.

Mae gan nifer fach o'r plant sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) addas. Maent yn rheoli tegan rhaglenadwy gan ddefnyddio cyfarwyddiadau syml ac yn defnyddio apiau mewn ffordd addas i gefnogi eu profiadau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall pwrpas cyfarpar technolegol yn dda wrth iddynt chwarae rôl, er enghraifft wrth baratoi bwyd gan ddefnyddio teganau fel tostiwr a thegell.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau gweithgarwch corfforol ac mae'r rhan fwyaf yn dangos sgiliau corfforol da wrth chwarae yn yr ardaloedd awyr agored. Maent yn dangos cydbwysedd a chydsymud wrth gerdded ar hyd darnau o bren, wrth ddefnyddio'r cylchau hwla ac wrth daflu a dal pêl-droed. Mae eu sgiliau echddygol manwl yn datblygu'n llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio gefail bach i bigo darnau o ffrwythau a llysiau yn ystod amser byrbryd. Mae nifer yn datblygu eu sgiliau creadigol wrth iddynt chwarae gydag offerynnau cerdd yn ystod eu harferion beunyddiol, yn ogystal ag yn yr ardal dysgu yn yr awyr agored.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy roi byrbrydau a diodydd maethlon i'r plant yn ddyddiol fel ffrwythau a llysiau a llaeth neu ddŵr. Maent yn annog y plant i ddilyn prosesau hylendid diogel yn effeithiol, fel golchi dwylo. Mae cyfleoedd chwarae diddorol rheolaidd ar gael i'r plant yn yr awyr agored.

Mae gan y lleoliad amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi gwasanaeth gofal plant diogel. mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o bolisi amddiffyn plant y lleoliad ac maent yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae bron pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, gan gynnwys cadw cofnodion fel cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau. Maent yn arfer gweithdrefnau hylendid da yn effeithiol, fel gwisgo dillad gwarchod wrth newid cewynnau ac amser byrbryd. Mae gwiriadau asesu risg dyddiol priodol ar waith wrth agor a chau, yn ogystal ag asesiadau risg cynhwysfawr sy'n cynnwys teithiau allan a gweithgareddau. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo mesurau diogelwch tân yn briodol drwy gynnal ymarferion tân bob mis.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn effeithiol. Maent yn fodelau rôl da ac yn atgoffa'r plant yn gyson i rannu teganau a bod yn garedig i'w gilydd. Maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn dda drwy ddull caredig a chyson, gan roi llawer o ganmoliaeth i'r plant, a rheoli ymddygiad negyddol yn effeithiol. Er enghraifft, pan fo plentyn yn taflu eitem ar y llawr. Mae'r holl ymarferwyr yn hawdd mynd atynt, maent yn adnabod y plant yn dda ac yn dangos sensitifrwydd i'w hanghenion unigol. Mae'r ymarferwyr yn darparu'r gofal mewn modd gofalgar a magwrus ac yn cynnig digon o anwyldeb a chysur i'r plant. Er enghraifft, maent yn rhoi cwtsh a chysur i blentyn a oedd yn teimlo'n drist ar ôl i riant ei ollwng yn y lleoliad yn y bore.

Mae'r ymarferwyr yn ceisio gwybodaeth sylfaenol briodol ynglŷn ag anghenion y plant wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad i'w galluogi i ddarparu gofal ymatebol, sy'n diwallu anghenion unigol y plant. Maent yn gweithredu system gweithiwr allweddol effeithiol. Mae bron pob un o'r plant yn cael cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer gweithgareddau dan arweiniad oedolion a chwarae rhydd, sy'n addas ar gyfer eu datblygiad ar y cyfan.

Mae'r ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant yn briodol ac yn defnyddio'r wybodaeth ar sail arsylwadau ac asesiadau'n llwyddiannus i helpu'r plant i ddatblygu gyda'u dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn nodi diddordebau'r plant yn eu gwaith penodol i gynllunio gweithgareddau; ond maent yn ystyried eu diddordebau wrth drefnu gweithgareddau chwarae rhydd. Mae'r ymarferwyr yn rhagweithiol o ran sicrhau bod y plant sydd ag anghenion addysgol ychwanegol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, er enghraifft gweithredu cynlluniau chwarae unigol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r plant yn llwyddiannus. Maent yn dechrau defnyddio syniadau'r plant yn briodol i gynllunio gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu diddordebau ac yn adeiladu ar yr hyn maent yn ei wybod. Nodwedd gref y ddarpariaeth yw'r defnydd effeithiol a wneir o'r ardaloedd dysgu yn yr awyr agored i ddatblygu sgiliau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o gyfarpar yn yr ardal yn y coetir gan gynnwys hen offerynnau cerdd, sy'n galluogi'r plant i arbrofi gyda'r synau gwahanol maent yn eu gwneud.

Mae'r arweinydd dros dro a'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu addas, sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol yn dda. Maent yn gwneud defnydd priodol o asesiadau cychwynnol, y fframwaith cyfnod sylfaen ac arsylwadau o ddysgu'r plant i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n datblygu sgiliau'r plant mewn modd systematig ym mhob un o'r meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n ddigonol ar gyfer datblygiad sgiliau iaith y plant yn y sesiynau Cymraeg. O ganlyniad, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn glir o ran pa batrymau iaith neu eirfa y dylent fod yn eu datblygu yn ystod y sesiwn.

Mae gan bron bob un o'r ymarferwyr gydberthynas waith wych â'r plant, ac maent yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i'w gadael i archwilio a darganfod pethau eu hunain. Maent yn modelu iaith lafar yn dda yn ystod y sesiynau Saesneg ac yn defnyddio technegau gofyn cwestiynau da iawn i ymestyn ymatebion y plant. Mae hyn hefyd yn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau meddwl a deall yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn dda drwy gydol y sesiwn i ddatblygu sgiliau iaith y plant ac atgyfnerthu geirfa sylfaenol. Mae hyn, yn ogystal â gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymraeg, yn sicrhau bod y plant yn dod yn gyfarwydd â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant. Er bod y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol yn ystod y sesiynau Cymraeg, nid ydynt yn modelu'r iaith yn ddigon cyson nac yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu sgiliau lleferydd y plant ymhellach, er enghraifft drwy ofyn cwestiynau priodol yn ystod gweithgareddau dysgu i annog y plant i ateb yn Gymraeg. Nid oes gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall y plant ei gyflawni yn ystod y sesiynau hyn ac nid ydynt yn atgyfnerthu patrymau iaith na geirfa yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw safonau lleferydd Cymraeg y plant yn datblygu'n ddigon cadarn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n briodol i ddatblygu sgiliau rhifedd y plant drwy brofiadau dysgu ymarferol, sy'n eu hannog i arbrofi a darganfod pethau eu hunain. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau fel cyfrif blociau tegan i weld faint sydd eu hangen i gyfateb â'u taldra. Mae'r ymarferwyr yn dechrau cynllunio'n briodol i ddatblygu sgiliau TGCh y plant, er enghraifft drwy ddefnyddio tegan rhaglenadwy neu pan fyddant yn defnyddio teclynnau cegin yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o amrywiaeth addas o ymwelwyr ac ymweliadau i wella profiadau'r plant, er enghraifft drwy wahodd swyddogion yr heddlu lleol i siarad am eu gwaith yn ystod eu hwythnos diogelwch ar y ffordd. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau addas i ddatblygu sgiliau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn defnyddio straeon yn dda i atgyfnerthu ac adlewyrchu pwysigrwydd cynhwysiant ac amrywiaeth yn ein cymdeithas.

**Yr Amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a glân dan do. Mae system gadarn ar gyfer rheoli mynediad i'r safle a chaiff cofnod o ymwelwyr ei gadw'n effeithiol. Mae gweithdrefnau da ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn gadael gyda rhiant neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r holl wiriadau diogelwch ar gyfer yr adeilad wedi cael eu cynnal. Mae'r ymarferwyr yn gwirio'r amgylchedd yn ddyddiol ac yn cadw cofnodion priodol.

Mae digon o le a chyfleusterau priodol i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r amgylchedd dysgu dan do yn olau, yn gynnes, yn groesawgar ac wedi'i osod yn

briodol i gefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae adnoddau sy'n addas i'w hanghenion ar gael iddynt. Mae'r arweinwyr yn storio'r teganau a'r adnoddau yn ddiogel ac maent yn labelu droriau yn glir, gan alluogi'r plant i ddewis eu hadnoddau a'u teganau yn annibynnol. Mae yna gyfleusterau addas i storio cofnodion yn ddiogel. Mae yna ardal chwarae awyr agored sy'n hawdd mynd ati sy'n darparu cyfleoedd chwarae da ac adnoddau addas, fel teganau reidio, cegin fwd, ardaloedd cerdd a phalu a strwythurau dringo. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored a'r adnoddau yn dda i ddatblygu sgiliau'r plant a gwella eu dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth fuddiol o adnoddau glân sy'n addas i oedran y plant ac sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u storio fel eu bod yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys teganau byd bach, cyfarpar adeiladu, cornel cartref a llyfrau. Mae'r dodrefn yn addas i oedran y plant, yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn sicrhau bod y plant i gyd yn gyfforddus wrth chwarae.

### Arwain a rheoli: Digonol

Mae'r arweinydd dros dro, sy'n newydd i'w rôl, yn cydweithio'n dda â'r ddau unigolyn cyfrifol i sicrhau y caiff gweledigaeth y lleoliad ei rhannu'n briodol â'r holl staff a'r rhieni. Yn dilyn cyfnod ansefydlog, mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr bellach yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau amgylchedd dysgu digynnwrf, gofalgar a phwrpasol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n gydwybodol i sicrhau profiadau ysgogol i'r plant ac maent yn awyddus i wella'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o wirfoddolwyr rheolaidd, gan gynnwys yr unigolyn cyfrifol cymwysedig sy'n cynorthwyo'r ymarferwyr yn dda yn eu gwaith beunyddiol. Mae'r arweinydd dros dro yn rheoli'r ymarferwyr a'r gwirfoddolwyr yn effeithlon i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth, gan ddilyn arferion sefydledig. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â'r strwythur staffio presennol yn effeithio ar allu'r lleoliad i wneud gwelliannau yn ei ddarpariaeth, yn enwedig wrth gyflwyno'r sesiynau Cymraeg.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr bellach yn fwy ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer rheoli ei berfformiad. Mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd priodol i fyfyrio ar eu perfformiad a thrafod eu gwaith gyda'r arweinwyr. Maent yn gosod targedau personol addas ar gyfer gwella ac maent yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a manteisio ar hyfforddiant amrywiol i wella eu sgiliau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn bob amser yn ystyried anghenion y lleoliad na'r ymarferwyr yn ddigon effeithiol, er enghraifft yr angen i wella sgiliau'r ymarferwyr i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth gyfyngedig o brosesau hunanwerthuso i nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Yn ddiweddarach, maent wedi ceisio barn y rhieni a'r ymarferwyr i gefnogi'r broses hon yn briodol. At hynny, maent yn defnyddio cyngor ac adroddiadau gan athro ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol i helpu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi gweithredu'n brydlon i wella meysydd y ddarpariaeth gan gynnwys yr amgylchedd dysgu dan do a'r amgylchedd dysgu awyr agored. Fodd bynnag, megis cychwyn y mae proses hunanwerthuso'r lleoliad. Nid yw canfyddiadau bob amser yn adlewyrchu gwaith y lleoliad yn gywir nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau'r plant na chydraddoldeb o ran ansawdd y ddarpariaeth yn y sesiynau Cymraeg a Saesneg. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad bob amser yn nodi meysydd allweddol sydd angen eu gwella i godi safonau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o adnoddau yn y lleoliad o ran cyfarpar ac adnoddau dysgu. Er enghraifft, maent wedi prynu cyfarpar awyr agored yn ddiweddar i wella sgiliau corfforol y plant. Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda'r rhieni a'r gofalwyr ac yn rhoi gwybod iddynt am y gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt. O ganlyniad, mae'r rhieni'n hyderus y bydd y lleoliad yn cefnogi datblygiad eu plentyn ac y byddant yn rhoi gwybod iddynt am eu datblygiad. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o asiantaethau gwahanol, fel athro ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol ac arbenigwyr anghenion arbennig i gefnogi gwaith y lleoliad. Maent yn defnyddio'r cyngor a'r cymorth a roddir i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant yn briodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru)  (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg Cyf (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  26/11/2019